# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol

## <u>Adroddiad Blynyddol y Grŵp 2018/19</u>

## 1. Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi

Dr Dai Lloyd AC, Cyd-gadeirydd

Angela Burns AC, Cyd-gadeirydd

Julie Morgan AC (Tachwedd 2018-Rhagfyr 2018)

Mike Hedges AC (o fis Rhagfyr 2018 ymlaen)

Caroline Jones AC

Emma Henwood, Ysgrifenyddiaeth, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, BHF Cymru

## 2. Cyfarfodydd blaenorol ers sefydlu'r Grŵp

***Cyfarfod 1.***

***Dyddiad***: 13 Tachwedd 2018

***Yn bresennol***: Dr Dai Lloyd AC, Julie Morgan AC, ac yn cyflwyno: Andy Glyde, CRUK, Dr Carina Fraser, Prifysgol Caerdydd a Dr Rachel Adams, Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Gwesteion amrywiol eraill, gyda chyfanswm o 22.

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd***: Cyflwynodd Andy Glyde adroddiad CRUK, *O'r Fainc i Erchwyn y Gwely;* cyflwynodd Dr Carina Fraser Fanc Bio newydd Prifysgol Caerdydd, a siaradodd Dr Rachel Adams am ei gwaith ar lygredd aer yn dilyn cyflwyniad fideo o'i gwaith a gwaith Dr Mark Millar yng Nghaeredin. Ymatebodd yr holl gyflwynwyr gwestiynau a chynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r materion yr hoffai'r aelodau i'r Grŵp ganolbwyntio arnynt mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

***Cyfarfod 2.***

***Dyddiad***: 13 Mawrth 2019

***Yn bresennol***: Dr Dai Lloyd AC, ac yn cyflwyno: Ian Rees Jones, Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru, Michaela James, Prifysgol Abertawe. Gwesteion amrywiol eraill, gyda chyfanswm o 16.

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd***: Cyflwynodd Ian Rees Jones ei astudiaeth, sy'n cael ei hariannu'n rhannol gan Gymdeithas Alzheimer's y DU, ac ar ôl cyflwyniad fideo ar ei gwaith siaradodd Michaela James am ei phrosiect o'r enw ACTIVE sydd â'r nod o gynyddu gweithgarwch corfforol pobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed. Atebodd y ddau gyflwynydd gwestiynau.

Rhoddodd Lowri Jackson o Goleg Brenhinol y Meddygon y wybodaeth ddiweddaraf am is-grŵp a oedd wedi bod yn trafod tasgau posibl ar gyfer y gweithlu ymchwil meddygol. Yn olaf, cynhaliwyd trafodaeth ynghylch dyfodol gwaith y Grŵp a pha werth ychwanegol y gallai'r Grŵp ei gyfrannu at y maes polisi.

***Cyfarfod 3.***

***Dyddiad***: 8 Mai 2019

***Yn bresennol***: Dr Dai Lloyd AC, Mike Hedges AC, ac yn cyflwyno: Mark Briggs, Gwasanaeth Gwaed Cymru, Mandy Edwards, Uwch Nyrs Ymchwil Canser y DU yng Nghymru, James Coulson, Prifysgol Caerdydd. Gwesteion amrywiol eraill gyda chyfanswm o 16.

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd***: Siaradodd Mark Briggs am ei waith yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru gyda meddygaeth fanwl, cyflwynodd Mandy Edwards ei gwaith fel uwch nyrs mewn ymchwil a'r materion sy'n wynebu timau mewn ysbytai, a rhoddodd James Coulson fanylion am ei ymchwil ar docsicoleg glinigol mewn lleoliad meddygol. Atebodd yr holl gyflwynwyr gwestiynau. Yn olaf, cynhaliwyd trafodaeth ar y potensial i'r Grŵp gynnal ymchwiliad a chytunwyd y dylid dod â chynllun i'r cyfarfod nesaf.

***Cyfarfod 4***

***Dyddiad***: 10 Gorffennaf 2019

***Yn bresennol***: Angela Burns AC, Dr Dai Lloyd AC, ac yn cyflwyno: Catrin Middleton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a Phartneriaeth Genomeg Cymru, Ali Hansford, Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain, a Gwyn Tudor, Hwb Gwyddorau Bywyd. Pobl amrywiol eraill, gyda chyfanswm o 21.

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd***: Rhoddodd Catrin Middleton drosolwg o Bartneriaeth Genomeg Cymru a'i rôl o ran uno meddygaeth fanwl drwyddi draw gwaith ymchwil yng Nghymru, siaradodd Ali Hansford am rôl diwydiant mewn ymchwil yng Nghymru, a rhoddodd Gwyn Tudor drosolwg o waith yr Hwb Gwyddorau Bywyd.

## 3. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Amherthnasol.

# <u>Datganiad Ariannol Blynyddol</u>

## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol

### Tachwedd 2018 – Hydref 2019

### Cadeiryddion: Dr Dai Lloyd AC ac Angela Burns AC

### Ysgrifennydd, Emma Henwood, BHF Cymru

| | | |
|---|---|---|
| Treuliau'r Grŵp | Dim | £0.00 |
| Costau'r holl nwyddau | Ni phrynwyd nwyddau | £0.00 |
| Buddiannau a gafodd y Grŵp neu aelodau unigol gan gyrff allanol | Ni chafwyd buddiannau | £0.00 |
| Unrhyw gymorth ysgrifenyddol neu gymorth arall | Ni chafwyd cymorth ariannol | £0.00 |
| Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp, megis lletygarwch<br><br>Talwyd am yr holl luniaeth gan BHF Cymru | | |
| Date | **Disgrifiad o'r darparwr a'i enw** | **Cost** |
| 13 Tachwedd 2018<br>Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol | Gwasanaeth Arlwyo<br>Charlton House | £246.65 |
| 13 Mawrth 2019<br>Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol | Gwasanaeth Arlwyo<br>Charlton House | £126.90 |
| 8 Mai 2019<br>Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol | Gwasanaeth Arlwyo<br>Charlton House | £173.16 |
| 10 Gorffennaf 2019<br>Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol | Gwasanaeth Arlwyo<br>Charlton House | £173.88 |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y gost | **£720.59** |